
WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU



# Adroddiad Gwella Blynyddol

# Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

Cyhoeddwyd: Mehefin 2014
Cyfeirnod y ddogfen: 363A2014

# Archwilydd Cyffredinol Cymru

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth a chaiff ei benodi gan Ei Mawrhydi y Frenhines. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n fwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol. Caiff Swyddfa Archwilio Cymru ei dwyn i gyfrif gan y Cynulliad Cenedlaethol.

Ar y cyd ag archwilwyr penodedig, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, y gwasanaeth prawf, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Mae hefyd yn cynnal astudiaethau o werth am arian yng nghyswllt llywodraeth leol ac yn asesu'r graddau y cydymffurfir â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Y tu hwnt i lywodraeth leol, yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus a noddir ganddi ac sy'n gysylltiedig â hi, Comisiwn y Cynulliad a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru.

Nod yr Archwilydd Cyffredinol a staff Swyddfa Archwilio Cymru yw darparu adroddiadau cymesur, sy'n canolbwyntio ar y cyhoedd, ynghylch y modd y caiff adnoddau cyhoeddus eu gwarchod, ac wrth wneud hynny, meithrin dealltwriaeth a hyrwyddo gwelliannau.

Paratowyd yr Adroddiad Gwella Blynyddol hwn ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru gan Lisa Williams a Ron Price o dan gyfarwyddyd Jane Holownia.

# Cynnwys


**Adroddiad cryno a chynigion ar gyfer gwella** 4

**Adroddiad manwl**

Cyflwyniad 6

Cyflawnodd yr Awdurdod welliannau yn ei swyddogaethau craidd er bod nifer y marwolaethau ac anafiadau a achoswyd gan danau mewn anheddau wedi cynyddu oherwydd un tân bwriadol 7

Mae'r Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cyflwyno adroddiadau er y gellid atgyfnerthu ei drefniadau ymhellach 14

Mae'r Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau cynllunio ond gellir atgyfnerthu trefniadau cynllunio busnes a bydd angen arweinyddiaeth bendant er mwyn gweithredu'r newidiadau sydd eu hangen i ateb yr heriau ariannol a wynebir yn y dyfodol 17

Mae'r Awdurdod yn debygol o gydymffurfio â'r gofyniad i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn 2014-15 21

**Atodiadau**

Atodiad 1
Statws yr adroddiad hwn 22

Atodiad 2
Gwybodaeth ddefnyddiol am Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru 23

Atodiad 3
Llythyr Archwilio Blynyddol 25

Atodiad 4
Amcanion gwella a hunanasesiad Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru 27

# Adroddiad cryno

1 Bob blwyddyn, rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gyflwyno adroddiad yn nodi pa mor dda y mae cynghorau, awdurdodau tân ac achub, a pharciau cenedlaethol Cymru yn cynllunio ar gyfer gwella wrth ddarparu eu gwasanaethau. Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar waith yr arolygiaethau perthnasol yng Nghymru, yn ogystal â gwaith a wnaed ar ran yr Archwilydd Cyffredinol gan Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r adroddiad yn ymdrin â threfniadau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) i ddarparu a gwerthuso gwasanaethau mewn perthynas â 2012-13, ei waith i gynllunio gwelliant ar gyfer 2013-14 a 2014-15, a chan ystyried y rhain, daw i gasgliad o ran pa un a yw'r Archwilydd Cyffredinol o'r farn y bydd yr Awdurdod yn gwneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus ar gyfer 2014-15.

2 Nodwyd gennym, yn 2012-13, er bod nifer y marwolaethau a'r anafiadau a achoswyd gan danau mewn anheddau wedi cynyddu oherwydd un tân bwriadol, fod yr Awdurdod wedi cyflawni gwelliannau yn ei swyddogaethau craidd. Daethom i'r casgliad hwn am fod yr Awdurdod:

- wedi gweithio'n galed i leihau nifer y tanau y mae'n ymateb iddynt mewn anheddau drwy gyflawni amrywiaeth eang o weithgareddau ataliol;
- yn ymgysylltu'n dda â phartneriaid er mwyn annog eiddo annomestig mwy diogel;
- yn cynnal rhaglen o weithgareddau a reolir yn dda er mwyn lleihau nifer y tanau bwriadol;
- yn cydweithio â phartneriaid er mwyn annog diogelwch ar y ffyrdd; ac
- wedi parhau i ddarparu gwasanaeth effeithiol a gwydn yn ystod cyfnodau o weithredu diwydiannol.

3 Nodwyd bod yr Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau adrodd ar welliant o dan Fesur Llywodraeth Cymru (Cymru) 2009 er y gellid atgyfnerthu ei drefniadau ymhellach. Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:

- cyhoeddodd yr Awdurdod ei Asesiad o Berfformiad ar gyfer 2012-13 o fewn terfynau amser statudol, gwerthusodd ei lwyddiant wrth gyflawni ei amcanion gwella yn glir a gwnaeth gynnwys yr holl ddangosyddion perfformiad strategol a chraidd cenedlaethol gofynnol;
- disgrifiodd yr Asesiad ddull yr Awdurdod o gydweithredu; a
- gellid gwneud gwelliannau pellach er mwyn atgyfnerthu'r defnydd a wneir o ddata cymharol a sicrhau bod dinasyddion yn ymwybodol o'r Asesiad.

4 Nodwyd hefyd fod yr Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau cynllunio o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, ond gellir atgyfnerthu trefniadau cynllunio busnes a bydd angen arweinyddiaeth bendant i weithredu'r newidiadau sydd eu hangen er mwyn ateb yr heriau ariannol a wynebir yn y dyfodol. Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:

- mae gwaith cynllunio busnes wedi'i sefydlu'n dda ac mae'n canolbwyntio ar ganlyniadau ar y cyfan, ond nid yw gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010 yn cael eu hystyried yn benodol wrth bennu amcanion gwella ac mae'r trefniadau ar gyfer gwerthuso a chyflwyno adroddiadau yn ystod 2014-15 wrthi'n cael eu datblygu;
- parheir i reoli heriau ariannol yn effeithiol, er y bydd graddau'r newid sydd ei angen yn parhau i fynnu arweinyddiaeth a chyfeiriad pendant;
- mae mentrau i hyrwyddo a chefnogi'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn parhau;
- mae trefniadau digonol ar waith i fodloni deddfwriaeth Datgelu er Budd y Cyhoedd; ac
- mae gwaith yn parhau gydag Awdurdodau Tân ac Achub eraill yng Nghymru i ddatblygu gwybodaeth sylfaenol Adnoddau Dynol gyson.

5 Gan ystyried yr uchod, mae'r Archwilydd Cyffredinol o'r farn bod yr Awdurdod yn debygol o gydymffurfio â'r gofyniad i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn 2014-15.

## Cynigion ar gyfer gwella

| | |
|---|---|
| C1 | Atgyfnerthu'r broses cynllunio gwelliant drwy wneud y canlynol:<br>• adlewyrchu'n glir ofynion Deddf Cydraddoldeb 2010 mewn cynlluniau gwella a'u datblygiad; a<br>• datblygu camau gweithredu, mesurau a threfniadau adrodd cysylltiedig ar gyfer 2014 15 Amcanion Gwella dau a thri. |
| C2 | Gwella'r adroddiad ar yr Asesiad o Berfformiad drwy wneud y canlynol:<br>• defnyddio mwy o ddata mwy;<br>• sicrhau bod y cyhoedd yn fwy ymwybodol o'i fodolaeth;<br>• llunio crynodeb mwy amserol o'r Asesiad;<br>• sicrhau bod yr Asesiad ar gael mewn amrywiaeth eang o fformatau; a<br>• gwahodd sylwadau neu gyfraniadau penodol gan ddinasyddion a'r gymuned am yr Asesiad. |

# Adroddiad manwl

## Cyflwyniad

6 O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gyflwyno adroddiad bob blwyddyn ar ba mor dda y mae cynghorau, awdurdodau tân ac achub a pharciau cenedlaethol Cymru yn cynllunio ar gyfer gwella wrth ddarparu eu gwasanaethau. Mae Atodiad 1 yn rhoi rhagor o wybodaeth am bwerau a dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan y Mesur. Gwnaed y gwaith hwn gan staff Swyddfa Archwilio Cymru, ar ran yr Archwilydd Cyffredinol, gyda chymorth Comisiynydd y Gymraeg. Rydym wedi dwyn ynghyd ddarlun o'r hyn y mae pob Cyngor neu Awdurdod yng Nghymru yn ceisio ei gyflawni, sut mae'n mynd ati i wneud hynny, a'r cynnydd a wnaed gan yr Awdurdod ers i'r Archwilydd Cyffredinol gyhoeddi ei adroddiad gwella blynyddol diwethaf. Mae'r adroddiad hefyd yn seiliedig ar hunanasesiad yr Awdurdod ei hun. Yn olaf, gan ystyried hyn oll, noda'r adroddiad gasgliad yr Archwilydd Cyffredinol o ran p'un a yw'r Awdurdod yn debygol o wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus ar gyfer 2014-15.

7 Nid ydym yn cynnal adolygiad blynyddol cynhwysfawr o holl drefniadau na holl wasanaethau'r awdurdod. Mae'r casgliadau yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar ein gwybodaeth gronnol a chyffredin a chanfyddiadau'r gwaith wedi'i flaenoriaethu a gyflawnwyd eleni.

8 O ystyried yr ystod eang o wasanaethau a ddarperir a'r heriau sy'n wynebu'r Awdurdod, byddai'n anarferol pe na baem wedi dod o hyd i bethau y gellir eu gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol:

- wneud cynigion ar gyfer gwella – os caiff cynigion eu gwneud i'r Awdurdod, byddem yn disgwyl iddo weithredu arnynt a byddwn yn gwneud gwaith dilynol ar yr hyn sy'n digwydd;
- gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella – os caiff argymhelliad ffurfiol ei wneud, mae'n rhaid i'r Awdurdod baratoi ymateb i'r argymhelliad hwnnw o fewn 30 diwrnod gwaith;
- cynnal arolygiad arbennig a chyhoeddi adroddiad a gwneud argymhellion; ac
- argymell y dylai Gweinidogion Llywodraeth Cymru ymyrryd mewn rhyw ffordd.

9 Rydym am wybod a yw'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch ac a yw'n hawdd ei ddeall. Gallwch fynegi eich barn drwy anfon e-bost atom yn info@wao.gov.uk neu ysgrifennu atom yn 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd CF11 9LJ.

## Cyflawnodd yr Awdurdod welliannau yn ei swyddogaethau craidd er bod nifer y marwolaethau ac anafiadau a achoswyd gan danau mewn anheddau wedi cynyddu oherwydd un tân bwriadol

10 Ym mis Gorffennaf 2013 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru adroddiad[1] ar y cynnydd a wnaed gan y tri awdurdod tân ac achub yng Nghymru yn erbyn y Fframwaith Cenedlaethol[2] rhwng mis Ebrill 2011 a mis Mawrth 2013. Mae'r adroddiad yn cymryd cipolwg strategol ac yn canolbwyntio ar y meysydd hynny â blaenoriaeth a amlygwyd yn y Fframwaith blaenorol a'r Fframwaith presennol a luniwyd gan yr ATAau dros y ddwy flynedd ddiwethaf, yn enwedig o ran:

- Cydweithredu – sut mae'r ATAau yn ymgysylltu â chyrff cyhoeddus eraill, y trydydd sector, Llywodraeth Cymru a'r cyhoedd a'r cymunedau a wasanaethir gan yr ATAau;
- Cynllunio a Pherfformiad – gwella ansawdd ac argaeledd gwasanaethau'r ATAau a'r angen i ddarparu gwell gwasanaethau a chyflawni gwell canlyniadau i bobl Cymru, gyda llai o adnoddau;
- Darparu Gwasanaethau – dyletswyddau craidd yr ATAau i liniaru effaith risgiau a nodwyd, gan sicrhau ymateb proffesiynol ac effeithiol i amrywiaeth o ddigwyddiadau;
- Cadernid – sut mae'r ATAau yn gweithio i ymateb i fygythiadau mawr; ac
- Adnoddau – sut mae'r ATAau yn canolbwyntio ar flaenoriaethau cynllunio, datblygu a hyfforddi'r gweithlu ac arweinyddiaeth er mwyn sicrhau bod yr ATAau yn darparu'r gwasanaeth gorau posibl i ddinasyddion, tra'n diogelu eu staff eu hunain.

11 Diben y Fframwaith Cenedlaethol yw rhoi cyfeiriad i Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru wrth gyflawni eu dyletswyddau statudol a'u rôl yng nghyd-destun y sector cyhoeddus ehangach. Ceir nifer o rolau a dyletswyddau allweddol sydd wrth wraidd y ddau Fframwaith:

- yr angen i ddarparu gwasanaeth cadarn;
- yr angen i gydweithredu er mwyn cyflawni nodau cyffredin; a'r
- angen i arloesi a gweithio mewn ffyrdd newydd er mwyn gwneud y gorau o'r talentau, arbenigedd ac adnoddau sy'n bodoli yng Nghymru.

12 Ceir dwy thema allweddol sy'n rhedeg drwy'r Fframwaith '2012 a thu hwnt' i ATAau ganolbwyntio arnynt:

- mesur canlyniadau i ddinasyddion a sut mae cydweithredu yn cefnogi'r agenda hon; ac
- ymdopi â llai, tra'n parhau i ddarparu gwasanaethau priodol i ddinasyddion yn yr hinsawdd economaidd bresennol.

13 Yn sgil yr adroddiad, ac er mwyn osgoi dyblygu ymdrech, nid ydym wedi gwneud rhagor o waith i werthuso cynnydd yr awdurdodau tân ac achub yn erbyn y fframwaith cenedlaethol ein hunain. Fodd bynnag, yn y paragraffau canlynol rydym yn darparu crynodeb o berfformiad yr Awdurdod mewn pedwar maes penodol (tanau mewn anheddau, tanau mewn eiddo annomestig, tanau bwriadol, damweiniau traffig ar y ffyrdd) er mwyn llunio barn ar welliant yr

1 *Adroddiad Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub 2011-2013*

2 (*'Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub Cymru'* a gyhoeddwyd yn 2008 a *'Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub o 2012 ymlaen'* sy'n bodoli a nododd weledigaeth a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer Awdurdodau Tân ac Achub (ATAau))

Awdurdod yn ei swyddogaethau craidd. Rydym wedi tynnu sylw at rai enghreifftiau o'r gweithgareddau a gyflawnwyd gan yr Awdurdodau yn unol â phrif themâu'r Fframwaith fel yr amlinellwyd ym mharagraffau 11 a 12.

## Mae'r Awdurdod wedi gweithio'n galed i leihau nifer y tanau y mae'n ymateb iddynt mewn anheddau drwy gyflawni amrywiaeth eang o weithgareddau ataliol

14 Mae gan yr Awdurdod amcan gwella i *'helpu i gadw pobl a chymunedau yn ddiogel drwy atal marwolaethau ac anafiadau o danau damweiniol mewn llety preswyl'*. Mae ganddo strategaeth glir i ganolbwyntio ei adnoddau ar agenda atal ac mae wedi cynnal rhaglen sylweddol o wiriadau diogelwch tân yn y cartref er mwyn helpu i'w chyflawni.

15 Ar y cyd â'r awdurdodau tân ac achub eraill yng Nghymru, mae'r Awdurdod wedi datblygu'r Siarter Ymateb i Danau mewn Anheddau sy'n amlinellu lefel y camau ataliol, diogelwch ac ymateb y gall cymunedau eu disgwyl mewn perthynas â'r risg o danau mewn anheddau er mwyn lleihau nifer y marwolaethau, anafiadau a thanau damweiniol mewn anheddau domestig.

16 Mae'r Awdurdod yn cyflawni amrywiaeth helaeth o weithgareddau ataliol er mwyn lleihau nifer y tanau mewn anheddau y mae'n ymateb iddynt. Mae llawer o staff, a leolir mewn gorsafoedd gweithredol a thimau canolog, yn cyfrannu at yr amrywiaeth o weithgareddau gwahanol sy'n anelu at godi ymwybyddiaeth a rhybuddio am y peryglon a all arwain at dân mewn annedd.

17 Mae gwiriadau diogelwch tân yn y cartref yn rhan bwysig o'r gwaith hwn fel mae'r rhaglen addysg mewn ysgolion, y caiff llawer ohonynt eu cyflawni ar y cyd â phartneriaid allanol. Mae'r Awdurdod yn anelu at sicrhau bod y profion diogelwch tân yn y cartref a gyflawnir wedi'u targedu cymaint â phosibl at y rhai sy'n wynebu'r risg fwyaf o dân yn y cartref. Er mwyn gwneud hyn mae'n gweithio gyda nifer o asiantaethau partner sydd â mynediad i ddata y gall yr Awdurdod eu defnyddio i bennu risgiau. Mae Gwiriadau Diogelwch Tân yn y Cartref yn rhoi amrywiaeth o wybodaeth a chyngor i gartrefi ar sut i leihau'r risg o danau yn y cartref a beth i'w wneud os bydd un yn digwydd.

18 Mae cyfanswm nifer y tanau yr ymatebir iddynt ledled Cymru wedi lleihau'n sylweddol dros y degawd diwethaf, o 26,327 yn 2004-05 i 11,437 yn 2012-13, gostyngiad o 57 y cant. Yng Ngogledd Cymru mae'r gostyngiad yng nghyfanswm nifer y tanau yr ymatebwyd iddynt wedi bod yn llai na ffigur Cymru gyfan ac mae wedi gostwng 47 y cant o 4,414 yn 2004-05 i 2,349 yn 2012-13.

19 Gwelwyd gostyngiad o saith y cant yn nifer y tanau mewn anheddau yr ymatebwyd iddynt yn ystod 2012-13 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol (o 530 o achosion yn 2012-12 i 493 yn 2012-13). Mae'r gostyngiad hwn yn uwch na chyfartaledd Cymru, sef gostyngiad o bump y cant ar gyfer yr un cyfnod:

- cafwyd gostyngiad o bedwar y cant yn nifer y tanau damweiniol mewn anheddau yn ystod 2012-13 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol (o 474 yn 2011-12 i 454 yn 2012-13), sef yr un gostyngiad â gostyngiad cyfartalog Cymru ar gyfer yr un cyfnod; a

- dechreuwyd 39 o danau bwriadol mewn anheddau, sef gostyngiad o 30 y cant o gymharu â'r flwyddyn flaenorol pan gafwyd 56 o achosion, sy'n fwy na'r gostyngiad o 20 y cant ledled Cymru ar gyfer yr un cyfnod.

20 Mae'n gadarnhaol bod yr Awdurdod wedi ymateb i lai o danau mewn anheddau yn ystod 2012-13. Er bod nifer y marwolaethau ac anafiadau wedi cynyddu yn ystod 2012-13, nid yw'r ffigurau yn dangos unrhyw duedd benodol, o ran lleoliad, y math o eiddo na nodweddion personol unigol er mwyn galluogi'r Awdurdod i dargedu'r elfen honno hefyd. Felly, mae'r Awdurdod yn bwriadu parhau â'i waith presennol sy'n cynnwys gwiriadau diogelwch tân yn y cartref, gwaith dadansoddi digwyddiadau sy'n seiliedig ar risg ac ymgyrchoedd diogelwch tân cyffredinol ledled Gogledd Cymru.

21 Bu farw mwy o bobl mewn tanau mewn anheddau yn ystod 2012-13 (o chwech o bobl yn 2011-12 i wyth yn 2012-13) nag yn y flwyddyn flaenorol. Cafwyd cynnydd o 26 y cant yn nifer yr anafiadau a gafwyd mewn tanau mewn anheddau (o 38 yn 2011-12 to 48 yn 2012-13), o gymharu â gostyngiad o un y cant ledled Cymru ar gyfer yr un cyfnod.

22 Arhosodd y canrannau ar gyfer larymau mwg a weithredwyd a chartrefi lle nad oedd larymau mwg wedi'u gosod yng Ngogledd Cymru yn 2012-13 fwy neu lai yr un peth â 2011-12. O'r tanau yr ymatebwyd iddynt:

- Arhosodd canran y tanau yr ymatebwyd iddynt lle nad oedd larwm mwg na chyfarpar canfod tân arall wedi'u gosod ar 15 y cant, sydd gryn dipyn yn well na chyfartaledd Cymru, sef 30 y cant ar gyfer 2012-13.

- Ymatebwyd i lai o danau mewn anheddau lle roedd larymau mwg neu gyfarpar canfod tân arall wedi'u gweithredu (o 61 y cant yn 2011-12 i 59 y cant yn 2012-13), sydd gryn dipyn yn well na chyfartaledd Cymru, sef 51 y cant ledled Cymru ar gyfer yr un cyfnod.

- Cafwyd cyfran uwch o danau mewn anheddau yr oedd larymau mwg neu gyfarpar canfod tân arall wedi'u gosod ynddynt na wnaethant lwyddo i weithio, i fyny o 24 y cant yn 2011-12 i 26 y cant yn 2012-13. Mae'r ffigur hwn yn uwch na chyfartaledd Cymru, sef 19 y cant ar gyfer yr un cyfnod.

23 Gwelwyd gostyngiad o 12 y cant yng nghyfanswm nifer y tanau mewn cartrefi lle cynhaliwyd asesiad risg diogelwch tân yn y cartref a/neu weithgarwch lleihau risg cysylltiedig o fewn dwy flynedd cyn y tân (o 164 yn 2011-12 i 145 yn 2012-13), o gymharu â chynnydd o bump y cant ledled Cymru.

## Mae'r Awdurdod yn ymgysylltu'n dda â phartneriaid er mwyn annog eiddo annomestig mwy diogel

24 Mae'r Awdurdod yn cyflawni gweithgareddau diogelwch tân busnesau bob blwyddyn drwy raglen archwilio risg safleoedd busnes. Mae'r Awdurdod hefyd yn defnyddio gwybodaeth am ddigwyddiadau i dargedu gwaith ychwanegol er mwyn lleihau'r risg o dân mewn eiddo annomestig.

25 Mae'n gadarnhaol bod nifer y tanau mewn eiddo annomestig ledled Cymru wedi lleihau 51 y cant yn y cyfnod rhwng 2004-05 a 2012-13, tra yng Ngogledd Cymru mae wedi lleihau 57 y cant dros yr un cyfnod.

26 Cafwyd gostyngiad o 32 y cant yn nifer y tanau ar safleoedd annomestig yr ymatebwyd iddynt yng Ngogledd Cymru yn ystod 2012-13 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol (o 215 o achosion yn 2011-12 i 147 yn 2012-13), sy'n well na chyfartaledd Cymru, sef gostyngiad o 16 y cant am yr un cyfnod. Mae'n gadarnhaol bod nifer y tanau ar safleoedd annomestig wedi lleihau'n sylweddol.

27 Ni fu farw unrhyw bobl mewn tanau ar safleoedd annomestig yn ystod 2012-13 (fel yn 2011 12) yn unol â'r sefyllfa ledled Cymru. Lleihaodd nifer yr anafiadau a gafwyd o ganlyniad i danau mewn anheddau 33 y cant o dri yn 2011-12 i ddau yn 2012-13, sy'n cyfateb i'r gostyngiad a welwyd ledled Cymru am yr un cyfnod. Mae'r niferoedd hyn yn fach a gall pob achos gael effaith sylweddol wrth gymharu blynyddoedd.

28 Mae lleihau nifer y galwadau larymau ffug (a achosir gan systemau larwm a chanfod tân awtomatig) a dderbynnir ac yr ymatebir iddynt (gan gynnwys rhai maleisus) fel bod gwasanaethau tân ac achub ledled Cymru yn treulio llai o amser ac yn defnyddio llai o danwydd ac adnoddau mewn digwyddiadau diangen yn rhan allweddol o'r gwaith gyda rheolwyr eiddo annomestig. Mae hyn yn cynnwys gweithio gydag ysbytai a phrifysgolion yn ogystal â pherchenogion eiddo busnes bach a mawr.

29 Mae cyfanswm nifer y galwadau larymau ffug maleisus wedi bod yn lleihau'n sylweddol dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf ledled Cymru (o 5,210 yn 2004-05 i 2,706 yn 2012-13, gostyngiad o 48 per cent). Yng Ngogledd Cymru lleihaodd nifer y galwadau a gafwyd yn yr un cyfnod o 930 yn 2004-05 i 473 yn 2012-13, gostyngiad o 49 y cant.

30 Yng Ngogledd Cymru lleihaodd nifer y galwadau larymau ffug maleisus a gafwyd 12 y cant yn ystod 2012-13 (o 538 yn 2011-12 i 473 yn 2012-13), sy'n cyfateb, fwy neu lai, i'r gostyngiad o 11 y cant a welwyd ledled Cymru yn yr un cyfnod (o 3,023 yn 2011-12 i 2,706 yn 2012-13).

31 Ers 2004-05 mae nifer y galwadau larymau ffug maleisus yr ymatebwyd iddynt yng Nghymru wedi lleihau 60 y cant o 1,775 yn 2004-05 i 702 yn 2012-13. Yng Ngogledd Cymru lleihaodd nifer y galwadau larymau ffug maleisus yr ymatebwyd iddynt 61 y cant dros yr un cyfnod o 271 yn 2004-05 i 106 yn 2012-13. Lleihaodd cyfanswm nifer y galwadau larymau ffug maleisus yr ymatebwyd iddynt o 133 yn 2011-12 i 106 yn 2012-13, gostyngiad o 20 y cant. Mae hyn yn well na'r gostyngiad o 13 y cant ledled Cymru dros yr un cyfnod (o 807 yn 2011-12 i 702 yn 2012-13).

32 Ledled Cymru mae cyfanswm nifer y larymau ffug yr ymatebwyd iddynt (a achoswyd gan systemau larymau a chanfod tân awtomatig) mewn eiddo annomestig wedi bod yn lleihau dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf (o 9,217 yn 2004-05 yn 2004-05 i 6,953 yn 2012-13). Yng Ngogledd Cymru mae cyfanswm nifer y larymau ffug yr ymatebwyd iddynt (a achoswyd gan systemau larymau a chanfod tân awtomatig) mewn eiddo annomestig wedi lleihau pedwar y cant (o 1,411 yn 2011-12 i 1,350 yn 2012-13). Mae hyn yn well na'r gostyngiad o 13 y cant ledled Cymru dros yr un cyfnod (o 807 yn 2011-12 i 702 yn 2012-13).

33 Mae'r Pwyllgor Materion Cenedlaethol wrthi'n adolygu trefniadau herio ac ymateb i alwadau o ran larymau ffug awtomataidd mewn eiddo annomestig er mwyn datblygu dull gweithredu Cymru gyfan.

## Mae'r Awdurdod yn cynnal rhaglen eang o weithgareddau a reolir yn dda er mwyn lleihau nifer y tanau bwriadol

34 Mae'r Awdurdod wedi gweithredu agenda ataliol ac wedi gweithio'n dda gyda phartneriaid allanol er mwyn lleihau'r risg o dân ledled yr ardal. Mae gwaith y Tîm Lleihau Tanau Bwriadol mewn cydweithrediad â'r Heddlu i dargedu tanau glaswelltiroedd, er enghraifft, yn cyfrannu at y gwaith ataliol hwn.

35 Ledled Cymru, mae cyfanswm nifer y tanau bwriadol yr ymatebwyd iddynt dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf wedi lleihau 68 y cant dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf (o 19,709 yn 2004-05 i 6,399 yn 2012 13). Yng Ngogledd Cymru mae'r nifer yr ymatebwyd iddynt hefyd wedi lleihau 66 y cant (o 2,454 yn 2004-05 i 835 yn 2012-13) dros yr un cyfnod.

36 Yng Ngogledd Cymru lleihaodd nifer y tanau bwriadol yr ymatebwyd iddynt 39 y cant yn ystod 2012-13, o gymharu â'r flwyddyn flaenorol (o 1,370 yn 2011-12 i 835 yn 2012-13). Mae'r gostyngiad mawr hwn yn gyson â'r gostyngiad cyfartalog o 40 y cant yn nifer y tanau bwriadol a welwyd ledled Cymru ar gyfer yr un cyfnod.

37 Cafodd 36 y cant o'r holl danau yr ymatebwyd iddynt yng Ngogledd Cymru yn ystod 2012-13 eu dechrau'n fwriadol. Mae'r ffigur hwn yn is na ffigur 2011-12 (sef 43 y cant) a chryn dipyn yn is na chyfartaledd Cymru, sef 56 y cant yn ystod 2012-13.

38 Mae gwaith tîm atal tanau bwriadol yr Awdurdod wedi cyfrannu at ostyngiad sylweddol yn nifer y tanau bwriadol yn ystod 2012-13, er bod yr Awdurdod hefyd yn cydnabod y gall ffactorau tymhorol, y tywydd a materion diwylliannol gael dylanwad o ran cynnau tanau bwriadol. Mae'r Awdurdod wedi bod yn defnyddio ymgyrchoedd i dynnu sylw at faterion yn ymwneud â gwaith llosgi dan reolaeth yn ystod y flwyddyn.

39 Lleihaodd nifer yr anafiadau a gafwyd mewn tanau bwriadol 38 y cant o wyth yn 2011-12 i bump yn 2012-13 sy'n is na'r gostyngiad cyfartalog ar gyfer Cymru ar gyfer yr un cyfnod, sef 50 y cant. Mae'r niferoedd hyn yn fach a gall pob achos gael effaith sylweddol wrth gymharu blynyddoedd.

40 Bu farw pump o bobl mewn tanau bwriadol yn ystod 2012-13 (ni fu neb farw mewn tanau bwriadol yn ystod 2011-12). Bu farw'r bobl hyn mewn un digwyddiad ym Mhrestatyn ym mis Hydref 2012. Mae'r niferoedd hyn yn fach a gall pob achos gael effaith sylweddol wrth gymharu blynyddoedd.

## Mae'r Awdurdod yn cydweithio â phartneriaid er mwyn annog diogelwch ar y ffyrdd

41 Nid oes gan yr Awdurdod ddyletswydd statudol ar gyfer diogelwch ar y ffyrdd ond mae'n cydweithio â'r Heddlu ac eraill i wella diogelwch ar y ffyrdd drwy Grŵp Diogelwch ar y Ffyrdd Cymru. Cynhaliodd yr Awdurdod nifer o fentrau a gynlluniwyd i leihau nifer y damweiniau ar y ffyrdd gan gynnwys:

- parhau â'i rôl fel partner o fewn Grŵp Diogelwch Ffyrdd Cymru;
- cymryd rhan yng nghynllun gyrru Pass Plus Cymru sydd wedi'i anelu at yrwyr ifanc 18 i 25 oed ac a gynhelir ar y cyd â'r heddlu;
- cymryd rhan yn y Cynllun Addysg Moduro, sef menter bartneriaeth sy'n cynnwys yr Heddlu ac awdurdodau lleol; a
- chynnal yr arddangosiadau fel rhan o sioe deithiol Effeithiau a chymryd rhan mewn diwrnodau diogelwch ar y ffyrdd amlasiantaethol.

42 Dengys ffigurau diogelwch ar y ffyrdd fod gwelliant cyffredinol ledled Cymru yn ystod 2012-13, gyda nifer y damweiniau angheuol ac anafiadau difrifol yn lleihau'n sylweddol, gyda llai o farwolaethau ac anafiadau na'r flwyddyn flaenorol. Mae'r Awdurdod wedi gweld rhywfaint o welliant eleni, yn arbennig o ran lleihau nifer y gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd yr ymatebwyd iddynt a nifer y damweiniau angheuol a difrifol ac anafiadau:

- Bu gostyngiad o 36 y cant yn nifer y gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd yr ymatebwyd iddynt yn ystod 2012; mae hyn gryn dipyn yn well na’r gostyngiad o dri y cant a welwyd ledled Cymru yn ystod yr un cyfnod.
- Mae nifer y damweiniau angheuol a difrifol wedi lleihau yng Ngogledd Cymru 12 y cant rhwng 2011 pan gafwyd 326 o ddamweiniau a 2012 pan gafwyd 287 o ddamweiniau; mae’r gostyngiad hwn yn fwy na’r gostyngiad a welwyd ledled Cymru, sef 16 y cant.
- Bu farw llai o bobl mewn gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd gan ostwng o 33 yn 2011 i 24 yn 2012.
- Lleihaodd nifer y marwolaethau ac anafiadau bedwar y cant rhwng 2011 pan gafwyd 2,297 o achosion a 2012 pan gafwyd 2,206, sy’n llai na’r gostyngiad o naw y cant a welwyd ledled Cymru ar gyfer yr un cyfnod.
- Roedd llai o yrwyr 25 oed ac iau mewn damweiniau traffig ar y ffyrdd yng Ngogledd Cymru yn 2012. Mae’r nifer hon wedi lleihau o 586 yn 2011 i 535 yn 2012, gostyngiad o naw y cant. Mae’r ffigur hwn yn llai na’r gostyngiad o 11 y cant a welwyd ledled Cymru ar gyfer yr un cyfnod.
- Cafodd 155 o yrwyr beiciau modur eu lladd neu eu hanafu yn 2012 o gymharu â 172 yn 2011 – cynnydd o 10 y cant, sy’n uwch na’r cynnydd o ddau y cant ledled Cymru ar gyfer yr un cyfnod.

## Parhaodd yr Awdurdod i ddarparu gwasanaeth effeithiol a gwydn yn ystod cyfnodau o weithredu diwydiannol

43 Ers canol 2013 mae’r Awdurdod wedi wynebu heriau mewn anghydfod cenedlaethol sy’n ymwneud yn bennaf â newidiadau arfaethedig y Llywodraeth i drefniadau Pensiwn diffoddwyr tân. O ganlyniad, bu angen i’r Awdurdod roi trefniadau ar waith i barhau i ddarparu ei wasanaethau yn ystod y cyfnodau hyn o weithredu diwydiannol sydd wedi rhoi baich ychwanegol ar yr Awdurdod, yn ariannol ac yn weithredol. Llwyddodd yr Awdurdod i ymateb i’r her hon yn effeithiol yn ystod 2013 ond mae’r anghydfod parhaus yn dal yn her i’r Awdurdod yn ystod 2014 ac nid yw’n sicr pa effaith a gaiff hyn ar yr Awdurdod wrth symud ymlaen.

# Mae'r Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cyflwyno adroddiadau er y gellid atgyfnerthu ei drefniadau ymhellach

## Cyhoeddodd yr Awdurdod ei Asesiad o Berfformiad ar gyfer 2012-13 o fewn terfynau amser statudol, gwerthusodd ei lwyddiant wrth gyflawni ei amcanion gwella yn glir a gwnaeth gynnwys yr holl ddangosyddion perfformiad strategol a chraidd cenedlaethol gofynnol

44 Cymeradwyodd a chyhoeddodd yr Awdurdod ei Asesiad o'i Berfformiad ar gyfer 2012-13 (sy'n dwyn y teitl *Sut y gwnaethom ni yn 2012-13?*) cyn y dyddiad cau statudol, sef 31 Hydref 2013. O fewn yr Asesiad mae'r Awdurdod yn gwerthuso ei lwyddiant wrth gyflawni ei amcanion gwella ac yn mynegi ei farn yn eglur.

45 Mae'r Asesiad yn cynnwys manylion am berfformiad fel y'i mesurir gan y dangosyddion perfformiad Strategol a chraidd cenedlaethol. Nododd ein hadolygiad o ansawdd data yn ystod 2013 fod gwybodaeth dangosyddion strategol a chraidd cenedlaethol yn gywir ac yn cael eu cefnogi gan ddulliau priodol i werthuso, monitro ac adolygu data.

46 Awgryma Llywodraeth Cymru hefyd, yn ei Fframwaith Dangosyddion Perfformiad ar gyfer Awdurdodau Tân ac Achub, y dylid cynnwys nifer o fesurau lleol yn Asesiad yr Awdurdod o Berfformiad na chyflwynir adroddiad arnynt ar hyn o bryd. Y llynedd nodwyd nad oedd y canlynol wedi'i gynnwys:

- perfformiad o ran gwrthdrawiadau traffig ar y ffordd;
- perfformiad o ran lleihau nifer yr anafiadau gweithredol ymhlith diffoddwyr tân;
- perfformiad yn erbyn Strategaeth Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Awdurdod Tân ac Achub Cymru (er bod rhywfaint o ddata ar gydraddoldeb ac amrywiaeth wedi'i gynnwys); a
- pherfformiad yn erbyn Cynllun Iaith Gymraeg yr Awdurdod.

47 Gwnaeth yr Awdurdod gynnwys gwybodaeth am ansawdd a graddau'r ddarpariaeth hyfforddi a datblygu a gafodd diffoddwyr tân, y perfformiad yn erbyn y strategaeth Cydraddoldeb ac Amrywiaeth a pherfformiad yn erbyn y Cynllun Iaith Gymraeg yn ei asesiad ar gyfer 2012-13.

## Disgrifiodd yr Asesiad ddull yr Awdurdod o gydweithredu

48 Yn ei Asesiad mae'r Awdurdod wedi nodi sut mae wedi datblygu trefniadau cydweithio gyda gwasanaethau ac asiantaethau brys eraill. Mae hyn wedi canolbwyntio ar leihau risg ar gyfer pobl sy'n agored i'r risg o dân. Bu mwy o bwyslais ar rannu data a gwybodaeth ar y cyd, gyda'r Awdurdod yn gweithio i sefydlu protocolau a threfniadau clir â'i bartneriaid yn unol â deddfwriaeth genedlaethol. Er enghraifft, mae'r Awdurdod wedi rhoi trefniadau ar waith gydag aelodau o staff Cymdeithas y Byddar Gogledd Cymru, sydd wedi'u hyfforddi i gynnal gwiriadau diogelwch tân yn y cartref tra'n cyflawni eu dyletswyddau arferol.

49 Yn ystod 2012-13 adolygodd yr Awdurdod ei drefniadau cyffredinol ar gyfer cynnal gwiriadau diogelwch tân yn y cartref ar y cyd â phartneriaid allanol, drwy ddatblygu cynllun gweithredu newydd ar gyfer Diogelwch Tân yn y Gymuned. Mae'r ddogfen hon yn nodi'r trefniadau ar gyfer cyflawni amcan gwella'r Awdurdod i leihau nifer y marwolaethau a'r anafiadau mewn tanau damweiniol. Mae'r Awdurdod wedi sefydlu rhagor o drefniadau rheoli ansawdd a defnydd cliriach o'r system cofnodi a monitro er mwyn monitro gweithgareddau atal, gan gyrraedd cynifer o bobl â phosibl o fewn y gymuned.

50 Mae arian grant ychwanegol gan Lywodraeth Cymru wedi'i ddefnyddio'n llwyddiannus i gefnogi gweithgareddau cydweithredu ac atal, sydd wedi lleihau nifer y tanau mewn anheddau. Mae hyn wedi cynnwys rôl Cydgysylltydd yn y Trydydd Sector a Thîm Atal Tanau Bwriadol a datblygu Partneriaeth Gwiriadau Diogelwch Tân yn y Cartref sydd wedi cynnal ymgyrchoedd diogelwch tân yn ystod y flwyddyn (gan ganolbwyntio ar y peryglon sy'n gysylltiedig â choginio, ysmygu, defnyddio canhwyllau ac eitemau trydanol).

## Gellid gwneud gwelliannau pellach er mwyn atgyfnerthu'r defnydd a wneir o ddata cymharol a sicrhau bod dinasyddion yn ymwybodol o'r Asesiad

51 Gallai'r Awdurdod wella ei asesiadau yn y dyfodol ymhellach drwy wneud y canlynol:

- Defnyddio mwy o ddata cymharol – Yn ein Hadroddiad Gwella Blynyddol (Ebrill 2013) nodwyd, er bod yr Awdurdod wedi defnyddio ystod eang o'i wybodaeth ei hun i lunio ei gasgliadau nid yw'n gwneud digon i gymharu ei berfformiad â chyrff eraill tebyg. Credaf hyn o hyd. Mae'r Awdurdod wedi cymharu ei berfformiad ei hun dros amser i ryw raddau (o ran lleihau nifer y tanau damweiniol mewn anheddau ac anafiadau cysylltiedig yn erbyn cyfartaleddau Cymru a Lloegr) ond prin yw'r cyfeiriadau yn yr Asesiad o Berfformiad ar gyfer 2012-13 at sut mae perfformiad Gogledd Cymru yn cymharu â gweddill Cymru neu â rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig. Ni ddefnyddir unrhyw ddangosyddion lleol i gymharu perfformiad ag Awdurdodau Gwella eraill yng Nghymru. Felly, bydd barn y cyhoedd ar sut mae'r Awdurdod yn perfformio mewn perthynas â chyrff eraill tebyg yn gyfyngedig ac nid yw'r Awdurdod yn datgan yn glir pa mor dda y mae'n perfformio, yn ei farn ef, o gymharu ag eraill.

- Sicrhau bod dinasyddion yn ymwybodol o'r Asesiad o Berfformiad. Nid yw'r Awdurdod yn defnyddio sianelau sydd ar gael i godi ymwybyddiaeth o'r Asesiad o Berfformiad. Ni chaiff ei hysbysebu ar hafan gwefan yr Awdurdod er enghraifft.

- Cyhoeddi crynodeb mwy amserol. Gohiriwyd cyhoeddi crynodeb 2012-13 tan fis Chwefror 2014 ac mae hyn yn cyfyngu ar effeithiolrwydd unrhyw weithgarwch ymgysylltu posibl â'r cyhoedd.

52 Mae'r Awdurdod wrthi'n ymgynghori â'r Awdurdodau Tân ac Achub eraill yng Nghymru drwy'r Pwyllgor Materion Cenedlaethol ar sut y gellir defnyddio mwy o ddata cymharol.

## Mae'r Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau cynllunio gwelliant ond gellir atgyfnerthu trefniadau cynllunio busnes a bydd angen arweinyddiaeth bendant er mwyn gweithredu'r newidiadau sydd eu hangen i ateb yr heriau ariannol a wynebir yn y dyfodol

### Mae gwaith cynllunio busnes wedi'i sefydlu'n dda ac mae'n canolbwyntio ar ganlyniadau ar y cyfan, ond nid yw gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010 yn cael eu hystyried yn benodol wrth bennu amcanion gwella ac mae'r trefniadau ar gyfer gwerthuso a chyflwyno adroddiadau yn ystod 2014-15 wrthi'n cael eu datblygu

53 Mae arweinyddiaeth yr Awdurdod yn parhau i ysgogi newid. Mae trefniadau ar waith ar gyfer pennu amcanion gwella mewn ffordd gydweithredol. Roedd staff yn ymwybodol o'r amcanion gwella ar gyfer 2013-14 a 2014-15 ac roeddent yn cefnogi'r cyfeiriad cyffredinol o ran gwelliant. Mae'r Awdurdod wedi cytuno ar dri amcan gwella ar gyfer 2014-15:

- helpu i ddiogelu pobl a chymunedau drwy atal marwolaethau ac anafiadau o ganlyniad i danau damweiniol mewn lletyau preswyl (cariwyd ymlaen o flynyddoedd blaenorol);
- gweithredu cynllun ariannol tair blynedd ar gyfer 2014-15 i 2016-17 sy'n ariannu'r lefel bresennol o wasanaeth, ond sy'n ceisio cyfyngu'r gost o wneud hynny i'r hyn sy'n cyfateb i £1 ychwanegol y flwyddyn y pen o'r boblogaeth; ac
- er mwyn sicrhau bod Gogledd Cymru yn cael y lefel orau bosibl o wasanaeth o fewn cyfyngiadau ariannol, defnyddio amrywiaeth o atebion rheoli er mwyn darparu'r gwasanaeth tân ac achub gorau posibl yn yr ardal.

54 Nid yw'r canlyniadau y mae'r Awdurdod yn disgwyl eu cyflawni yn ystod 2014-15 wedi'u nodi'n glir, yn arbennig ar gyfer amcan gwella tri, ac mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd i ddinasyddion ddeall pa welliant y gall ddisgwyl ei gyflawni. Er enghraifft, bydd ymadroddion megis 'lefel bresennol o wasanaeth' a 'lefel orau posibl o wasanaeth' yn golygu pethau gwahanol i bobl wahanol ac nid ydynt wedi'u diffinio yn y Cynllun Gwella.

55 Roedd y camau roedd angen eu cymryd er mwyn cyflawni'r ddau amcan gwella ar gyfer 2013-14 wedi'u nodi'n glir yn y cynllun gwella ond mae hyn yn llai eglur ar gyfer 2014-15. Er y rhoddir disgrifiadau o'r camau gweithredu arfaethedig ar gyfer amcan gwella un, mae'r Awdurdod wrthi'n penderfynu ar y camau manwl sydd angen eu cymryd er mwyn cyfyngu unrhyw gynnydd mewn costau ar gyfer y cyfnod rhwng 2014 15 a 2016-17 i £1 ychwanegol y flwyddyn y pen o'r boblogaeth, mewn cydweithrediad â chyrff cynrychioliadol ac awdurdodau cyfansoddol (er mwyn gweithredu amcan gwella dau). Yn dilyn y trafodaethau hyn, penderfynir yn derfynol ar y camau y bydd angen eu cymryd er mwyn gweithredu amcan gwella tri hefyd.

56 Nodwyd nad oedd cysylltiad clir rhwng y trefniadau ar gyfer cyflwyno adroddiadau ar gynnydd yn erbyn amcan gwella dau yn ystod 2013-14 â'r trefniadau presennol ar gyfer cyflwyno adroddiadau ar berfformiad. Er enghraifft, mae'r adroddiadau ar gynnydd yn erbyn yr amcanion gwella a gyflwynir i'r Panel Gweithredol yn rheolaidd yn cynnwys cyfeiriadau at Amcan gwella dau ac eto nid

oes unrhyw fanylion i ddangos cynnydd na pherfformiad cyffredinol yn erbyn y gyllideb flynyddol na dolenni lle y gellir dod o hyd i'r wybodaeth, er enghraifft mewn adroddiadau monitro'r gyllideb. Pan fydd y camau sydd angen eu cymryd i gyflawni Amcanion Gwella dau a thri ar gyfer 2014-15 yn hysbys mae angen i'r Awdurdod gytuno ar sut y bydd yn adrodd ar gynnydd yn erbyn yr amcanion gwella yn ystod y flwyddyn yn fewnol ac yn allanol.

57 Cyflwynwyd Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb a oedd yn ymwneud â'r broses o weithredu'r amcanion gwella terfynol ar gyfer 2014-15 i'r Awdurdod pan gytunodd ar yr amcanion gwella ym mis Mawrth 2014. Fodd bynnag, nid yw'n glir a oedd yr asesiadau hyn yn cael eu hystyried yn rhan o'r broses o bennu amcanion gwella. Byddai cynnal yr asesiad yn gynharach yn ystod y broses yn sicrhau y câi anghenion pobl â nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 eu hystyried ar y cam cynllunio.

## Parheir i reoli heriau ariannol yn effeithiol, er y bydd graddau'r newid sydd ei angen yn parhau i fynnu arweinyddiaeth a chyfeiriad pendant

58 Ar 25 Medi 2013, cyflwynodd yr archwilydd a benodwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol farn archwilio ddiamod ar ddatganiadau cyfrifyddu'r Awdurdod. Amgaeir copi o *Lythyr Archwilio Blynyddol* yr Archwilydd Penodedig i'r Awdurdod, sy'n crynhoi'r prif negeseuon sy'n deillio o'r archwiliad, yn Atodiad 3.

59 Ar 20 Hydref 2010, cyhoeddodd Canghellor y Trysorlys adolygiad o wariant 2010 i'r Senedd. Roedd yr adolygiad hwn yn rhan ganolog o ymateb y llywodraeth glymblaid i'r angen i leihau'r diffyg cenedlaethol, gyda'r bwriad o fantoli arian cyhoeddus. Yr arbedion hyn yw'r lleihad mwyaf mewn gwariant cyhoeddus ers y 1920au ac maent yn dod ar adeg pan fo newidiadau demograffig a phwysau economaidd sy'n gysylltiedig â'r dirwasgiad yn cynyddu'r galw am rai gwasanaethau. Er mwyn cynllunio cyllid yn effeithiol, mae angen i awdurdodau ddadansoddi manylion am dueddiadau ariannol, gwybodaeth feincnodi briodol, senarios posibl a'u heffaith debygol yn y byrdymor, y tymor canolig a'r hirdymor. Mae'r hinsawdd ariannol bresennol a'r setliad anodd diweddar i lywodraeth leol yn golygu bod gwaith cynllunio ariannol da yn hanfodol i gynnal cydnerthedd ariannol.

60 Rydym wrthi'n ystyried iechyd ariannol awdurdodau, eu dulliau cyllidebu ac i ba raddau y maent yn cyflawni'r arbedion gofynnol, er mwyn rhoi sicrwydd bod awdurdodau yn ariannol gydnerth. Bydd y gwaith hwn yn ystyried p'un a oes gan awdurdodau drefniadau cadarn ar waith i reoli'r gostyngiadau cyllidebol sy'n eu hwynebu er mwyn sicrhau eu bod mewn sefyllfa ariannol sefydlog sy'n eu galluogi i barhau i weithredu yn y dyfodol agos. Mae'r gwaith yn canolbwyntio ar gyfnod cynllunio ariannol 2014-15 a chyllidebau 2013-14. Caiff yr adolygiad hwn ei gwblhau ar ddechrau 2014-15 a byddwn yn cyhoeddi ein canfyddiadau yn ein cylch nesaf o waith asesu gwelliant.

61 Dengys y ffigurau terfynol ar gyfer yr alltro gwirioneddol ar gyfer 2013-14 danwariant o £1,336,358. Ar gyfer y tair blwyddyn ariannol ddiwethaf llwyddodd yr Awdurdod i arbed £2.4 miliwn drwy newid y system restru, y strwythur rheoli, y ddarpariaeth cyfarpar awyr a threfniadau staffio gwasanaethau cymunedol a gwasanaethau cymorth. Defnyddir y tanwariant er mwyn helpu i ariannu cyfraniad o £1 filiwn at gronfa gyfalaf wrth gefn a chyfraniad o £336,358 at ddarpariaeth pensiwn Staff ar Ddyletswydd yn ôl y Galw.

62 Mae'r Awdurdod wedi cymeradwyo cyllideb net o £31,772,011 ar gyfer 2014-15, a ariennir yn rhannol o gronfeydd wrth gefn. Mae defnyddio cronfa wrth gefn yn ffordd o leihau effeithiau'r pwysau ariannol ond oherwydd y pwysau chwyddiannol cyffredinol mae terfyn i'r defnydd y gellir ei wneud o gronfeydd wrth gefn.

63 Y gwariant net (yn seiliedig ar ddarparu'r un gwasanaeth) a ragwelir ar gyfer 2015-16 yw £33,146,845 (sef cynnydd o 4.33 y cant) sy'n golygu y bydd 2015-16 yn flwyddyn heriol ac mae'r Awdurdod yn wynebu dewisiadau anodd er mwyn cynnal cyllideb gytbwys yn y blynyddoedd i ddod.

64 Bydd yr angen i fantoli'r gyllideb yn 2015-16 a 2016-17 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod wneud penderfyniadau anodd am yr ymddengys na fydd modd cynnal y ddarpariaeth gwasanaethau bresennol o fewn y cyfyngiadau ariannol a ragwelir. Hyd yma mae'r Awdurdod wedi cymryd camau rhagweithiol i ddatblygu prosesau darparu gwasanaethau heb orfod diswyddo staff na chau gorsafoedd. Yn hyn o beth, mae wedi gweithio'n effeithiol gyda chynrychiolwyr staff er mwyn gwneud newidiadau i strwythur y gweithlu sy'n dderbyniol i'r naill ochr a'r llall.

65 Mae'r Awdurdod yn cydnabod nad yw'r model hanesyddol ar gyfer darparu gwasanaethau gan ddefnyddio cyfuniad o ddiffoddwyr tân llawn amser a staff system ar ddyletswydd yn ôl y galw yn addas at y diben mwyach ym mhob rhan o Ogledd Cymru. Mae newidiadau cymdeithasol yn golygu ei bod yn anodd gwarantu gwasanaeth diffoddwyr tân ar bob adeg. Felly, mae'r Awdurdod wedi ceisio defnyddio ei weithlu mewn ffordd fwy hyblyg, er enghraifft, drwy ddefnyddio cronfa o staff gweithredol a all weithio'n fwy hyblyg ledled Gogledd Cymru, a chan ddefnyddio contractau i wella argaeledd y gweithlu.

## Mae mentrau i hyrwyddo a chefnogi'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn parhau

66 Gwelwyd gostyngiad yng nghanran y gwiriadau diogelwch tân yn y cartref a gynhaliwyd drwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod 2012-13, ac mae'r Awdurdod wedi ail-lansio ymgyrch 'Mae gen ti ddewis' er mwyn mynd i'r afael â hyn. Mae'r Awdurdod yn parhau i ddatblygu hyfforddiant iaith Gymraeg. Mae wedi llunio deunydd dysgu ac mae wrthi'n datblygu modiwl e-ddysgu ar ymwybyddiaeth iaith. Bu cynnydd yng nghanran y swyddi lle mae'r Gymraeg yn hanfodol a lenwyd gan siaradwyr Cymraeg ac mae'r Awdurdod yn mynd ati i dargedu gweddill y staff er mwyn cyrraedd y lefel angenrheidiol i fodloni gofynion ieithyddol swyddi. Enwebwyd yr Awdurdod ar gyfer

gwobr Ysbrydoli Cymru yn y categori 'Cymraeg yn y Gweithle'. Mae'r Awdurdod wedi ceisio ategu ei ddarpariaeth cyfieithu fewnol ei hun â chyfieithwyr allanol, gan gynnwys cyfieithwyr o Heddlu Gogledd Cymru ac awdurdodau lleol eraill.

## Mae trefniadau digonol ar waith i fodloni deddfwriaeth Datgelu er Budd y Cyhoedd

67 Mae'r Awdurdod wedi rhoi trefniadau digonol ar waith i fodloni gofynion Deddf Datgelu er Budd y Cyhoedd 1998, a'r newidiadau a wnaed i gyfraith Chwythu'r Chwiban gan Ddeddf Menter a Diwygio Rheoleiddio 2013.

68 Adolygodd yr Awdurdod ei drefniadau chwythu'r chwiban yn ystod 2013 ac mae wedi drafftio polisi diwygiedig a gaiff ei gwblhau a'i lansio ar ddechrau 2014-15 yn dilyn ein hadolygiad. Ni fu unrhyw achosion i'r trefniadau monitro eu cofnodi yn ystod y ddwy flynedd diwethaf.

## Mae gwaith yn parhau gydag Awdurdodau Tân ac Achub eraill yng Nghymru i ddatblygu gwybodaeth sylfaenol Adnoddau Dynol gyson

69 Yn ein Cynllun Rheoliadol Blynyddol gwnaethom nodi y byddem yn cynnal adolygiad thematig o'r trefniadau sy'n cwmpasu Adnoddau Dynol yn Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn ogystal ag Awdurdodau Tân ac Achub eraill yng Nghymru. Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo o hyd.

70 Yn ystod 2013, cytunwyd ar drefniadau rhwng yr Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru i ddatblygu gwybodaeth sylfaenol gyffredin am weithgareddau ac adnoddau Adnoddau Dynol, fel bod modd gwneud cymariaethau ystyrlon. Rydym yn cefnogi'r uchelgais hon ac anogwn ddadansoddiad pellach er mwyn nodi tueddiadau ac eithafion. Byddwn yn gweithio gyda'r Awdurdodau i ddatblygu a defnyddio'r wybodaeth hon yn ystod 2014.

## Mae'r Awdurdod yn debygol o gydymffurfio â'r gofyniad i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn 2014-15

71 Yn seiliedig ar y casgliadau a amlinellir yn adrannau blaenorol yr adroddiad hwn, cred yr Archwilydd Cyffredinol fod Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn debygol o fodloni gofynion y Mesur i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus.

# Atodiadau

## Atodiad 1
## Statws yr adroddiad hwn

O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal asesiad gwella blynyddol, a chyhoeddi adroddiad gwella blynyddol, ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru. Mae'r gofyniad hwn yn cwmpasu cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Lluniwyd yr adroddiad hwn gan staff Swyddfa Archwilio Cymru ar ran yr Archwilydd Cyffredinol er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 24 o'r Mesur. Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 19 i gyflwyno adroddiad sy'n ardystio ei fod wedi cynnal asesiad gwella o dan adran 18 ac yn nodi a yw o'r farn, o ganlyniad i'w archwiliad o'r cynllun gwella o dan adran 17, fod yr awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio ar gyfer gwella o dan adran 15.

Mae gan awdurdodau gwella ddyletswydd gyffredinol i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni eu swyddogaethau'. Diffinnir awdurdodau gwella fel cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Yr asesiad gwella blynyddol yw'r prif ddarn o waith sy'n galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau. Mae'r asesiad gwella yn asesiad sy'n edrych i'r dyfodol o'r tebygolrwydd y bydd awdurdod yn cydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Mae hefyd yn cynnwys asesiad ôl-weithredol i nodi a yw awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd ganddo er mwyn llunio barn ar hanes yr awdurdod o ran sicrhau gwelliant. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn crynhoi ei waith archwilio ac asesu mewn Adroddiad Gwella Blynyddol cyhoeddedig ar gyfer pob awdurdod (o dan adran 24).

O dan rai amgylchiadau, gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal arolygiadau arbennig (o dan adran 21), y cyflwynir adroddiad arnynt i'r awdurdod a'r Gweinidogion, ac y gall eu cyhoeddi (o dan adran 22). Un o weithgareddau atodol pwysig yr Archwilydd Cyffredinol yw cydgysylltu gwaith asesu a rheoleiddio (sy'n ofynnol o dan adran 23), sy'n ystyried rhaglen waith gyffredinol pob rheoleiddiwr perthnasol mewn awdurdod gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd ystyried gwybodaeth a rennir gan reoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33) yn ei asesiadau.

# Atodiad 2
# Gwybodaeth ddefnyddiol am Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

## Yr Awdurdod

Mae'n rhaid i'r Awdurdod gyflawni'r holl ddyletswyddau a chyfrifoldebau yn unol â deddfwriaeth a rheoliadau priodol. Mae tri darn pwysig o ddeddfwriaeth yn ymwneud ag awdurdodau tân:

## Deddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004

Mae'r Ddeddf hon yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod tân wneud darpariaeth ar gyfer diffodd tanau, sydd hefyd yn golygu diogelu bywydau ac eiddo mewn achosion o dân yn ogystal â diffodd tanau. Mae hefyd yn darparu ar gyfer ymateb i wrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd ac argyfyngau eraill yn ogystal â gweithgareddau diogelwch cymunedol.

## Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005

Daeth y Gorchymyn i rym ar 1 Hydref 2006, gan ddisodli dros 70 o ddarnau unigol o ddeddfwriaeth ar ddiogelwch tân. Diddymwyd y gofyniad i fusnesau feddu ar dystysgrifau tân. Mae'r Gorchymyn Diogelwch Tân yn gymwys i bob safle annomestig yng Nghymru a Lloegr, gan gynnwys rhannau cyffredin blociau o fflatiau a thai amlfeddiannaeth. Mae'n rhoi cyfrifoldeb i'r rhai sydd yn y sefyllfa orau i fynd i'r afael â diogelwch tân a sicrhau y caiff risgiau eu hadolygu'n barhaus. O dan y Gorchymyn mae'n ofynnol i'r Person Cyfrifol[3] gynnal asesiad risg tân a rhoi mesurau diogelwch tân priodol ar waith er mwyn sicrhau'r risg leiaf posibl i fywydau o ganlyniad i dân; a sicrhau bod yr asesiad yn gyfredol. Caiff y Gorchymyn ei orfodi gan Awdurdodau Tân ac Achub y disgwylir iddynt ddatblygu cyfundrefnau arolygu priodol yn seiliedig ar risg.

## Deddf Argyfyngau Sifil 2004

Mae'r Ddeddf yn darparu un fframwaith ar gyfer mesurau amddiffyn sifil yn y Deyrnas Unedig a all ateb heriau'r unfed ganrif ar hugain. Rhennir y Ddeddf yn ddwy ran; Rhan 1 sy'n diffinio rhwymedigaethau sefydliadau penodol i baratoi ar gyfer mathau amrywiol o argyfyngau a Rhan 2 sy'n darparu pwerau ychwanegol i'w defnyddio gan y Llywodraeth os bydd argyfwng difrifol. O dan y Ddeddf caiff gwasanaethau tân ac achub eu diffinio yn Ymatebwyr Categori 1 ac fel y cyfryw mae ganddynt chwe dyletswydd benodol i'w cyflawni:

- asesu'r risg o argyfyngau a defnyddio'r wybodaeth hon i lywio gwaith cynllunio wrth gefn;
- rhoi cynlluniau argyfwng ar waith;
- rhoi trefniadau Rheoli Parhad Busnes ar waith;
- rhoi trefniadau ar waith i sicrhau bod gwybodaeth ar gael i'r cyhoedd am faterion amddiffyn sifil a chynnal trefniadau i rybuddio, hysbysu a chynghori'r cyhoedd os bydd argyfwng;

3 Mae dogfennau Cyfraith a Chanllawiau Diogelwch Tân yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol i fusnesau yn datgan bod y gyfraith yn gymwys os ydych: yn gyfrifol am safle busnes, yn gyflogwr neu'n unigolyn hunangyflogedig sydd â safle busnes, yn gyfrifol am ran o anheddiad sy'n cael ei defnyddio'n gyfan gwbl at ddibenion busnes, yn elusen neu'n sefydliad gwirfoddol, yn gontractwr â rhywfaint o reolaeth dros unrhyw safle, yn darparu llety i westeion sy'n talu.

- rhannu gwybodaeth ag ymatebwyr lleol eraill er mwyn gwella'r broses gydgysylltu; a
- cydweithio ag ymatebwyr lleol eraill er mwyn gwella prosesau cydgysylltu ac effeithlonrwydd.

Gosodir dyletswydd ychwanegol ar awdurdodau lleol sef:

- rhoi cyngor a chymorth i fusnesau a sefydliadau gwirfoddol mewn perthynas â rheoli parhad busnes. Gellir galw ar wasanaethau tân ac achub lleol i helpu yn y rôl hon.

Mae sefydliadau Categori 2 yn cynnwys sefydliadau megis yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, cwmnïau trafnidiaeth a chwmnïau cyfleustodau. Bydd sefydliadau Categori 1 a Chategori 2 yn sefydlu Fforymau Cydnerthu Lleol (yn seiliedig ar ardaloedd yr heddlu) a fydd yn helpu ymatebwyr i gydgysylltu a chydweithio yn lleol.

Caiff yr Awdurdod ei ariannu'n uniongyrchol gan yr awdurdodau lleol cyfansoddol yn seiliedig ar ragolygon poblogaeth ym mhob ardal. Mae'n cynnwys 28 o gynghorwyr o'r chwe awdurdod unedol yng Ngogledd Cymru (caiff nifer y cynrychiolwyr o bob awdurdod cyfansoddol ei phennu gan nifer yr etholwyr llywodraeth leol cofrestredig ym mhob ardal).

Cyllideb refeniw flynyddol yr Awdurdod ar gyfer 2013-14 yw £31.8 miliwn. Yn yr un flwyddyn, roedd gan yr Awdurdod gyllideb gyfalaf o £7.6 miliwn hefyd. Mae hyn yn cyfateb i tua £46 fesul trigolyn.

Cadeirydd presennol yr Awdurdod Tân ac Achub yw'r Cynghorydd Meirick Lloyd Davies.

Cynhelir cyfarfodydd o'r Awdurdod llawn bedair gwaith bob blwyddyn fel arfer - ym mis Mawrth, Mehefin, Hydref a Rhagfyr - i ystyried pynciau megis cynlluniau gwasanaeth, materion busnes arferol, cyllidebau a gwariant, ac i wneud penderfyniadau polisi neu gymeradwyo penderfyniadau o'r fath fel y bo'n briodol. Mae'r cyfarfodydd yn agored i'r cyhoedd, ac mae cofnodion o drafodion yr Awdurdod ar gael ar ei wefan.

Arweinir a rheolir y Gwasanaeth gan Simon Smith, y Prif Swyddog Tân a'r Prif Weithredwr gyda chymorth tîm y prif swyddogion, yr uwch dîm rheoli a chynghorwyr arbenigol.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i wefan yr Awdurdod yn www.northwales-fire.gov.uk neu cysylltwch â'r Awdurdod ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub, Ffordd Salesbury, Parc Busnes Llanelwy, Llanelwy, Sir Ddinbych, LL17 0JJ.

# Atodiad 3
# Llythyr Archwilio Blynyddol

Simon Smith
Prif Swyddog Tân
Pencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
Ffordd Salesbury
Llanelwy, Sir Ddinbych
LL17 OJJ

Annwyl Simon

## Llythyr Archwilio Blynyddol

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi'r negeseuon allweddol sy'n deillio o'm cyfrifoldebau statudol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 fel yr Archwilydd Penodedig a'm cyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

## Cydymffurfiodd yr Awdurdod â'i gyfrifoldebau yn ymwneud ag adroddiadau ariannol a defnyddio adnoddau

Cyfrifoldeb yr Awdurdod yw:

- rhoi systemau rheolaeth fewnol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion a sicrhau bod ei asedau'n ddiogel;
- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir;
- paratoi Datganiad Cyfrifon yn unol â gofynion perthnasol; a
- sefydlu ac adolygu'n barhaus drefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- roi barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau'r Awdurdod i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau; a
- rhoi tystysgrif yn cadarnhau fy mod wedi cwblhau'r broses o archwilio'r cyfrifon.

Mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn paratoi eu datganiadau cyfrifyddu yn unol â gofynion Cod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig. Mae'r Cod hwn yn seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol. Ar 25 Medi 2013 rhoddais farn archwilio ddiamod ar y datganiadau cyfrifyddu, gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa a thrafodion ariannol yr Awdurdod a'r Gronfa Bensiwn. Mae fy adroddiad wedi'i gynnwys yn y Datganiad Cyfrifon. Hysbyswyd aelodau'r Pwyllgor Archwilio am y materion allweddol a oedd yn deillio o'r archwiliad o'r cyfrifon yn fy adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol ar 23 Medi 2013, a chyflwynir adroddiad manylach maes o law.

Mae fy ystyriaeth o drefniadau'r Awdurdod i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wedi bod yn seiliedig ar y gwaith archwilio a wnaed ar y cyfrifon ac rwyf hefyd wedi dibynnu ar y gwaith a gwblhawyd fel rhan o'r Asesiad Gwella o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Ar y cyfan, rwy'n fodlon bod gan yr Awdurdod drefniadau priodol ar waith. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn tynnu sylw at y meysydd lle nad yw effeithiolrwydd y trefniadau hyn wedi'u profi eto neu lle y gellid gwneud gwelliannau pan fydd yn cyhoeddi ei Adroddiad Gwella Blynyddol.

Cyhoeddais dystysgrif yn cadarnhau bod yr archwiliad o'r cyfrifon wedi'i gwblhau ar 25 Medi 2013.

Ar hyn o bryd, disgwylir i'r ffi archwilio ariannol ar gyfer 2012-13 fod yn unol â'r ffi y cytunwyd arni a nodir yn yr Amlinelliad o'r Archwiliad Blynyddol.

Yn gywir

**Virginia Stevens**

Dros ac ar ran yr Archwilydd Penodedig
28 Tachwedd 2013

Copi at Dawn Docx, Dirprwy Brif Swyddog

# Atodiad 4
# Amcanion gwella a hunanasesiad Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

## Amcanion gwella'r Awdurdod

Mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod wneud cynlluniau i wella ei swyddogaethau a'r gwasanaethau a ddarperir ganddo. Bob blwyddyn mae'n rhaid iddo gyhoeddi'r cynlluniau hyn ynghyd ag 'amcanion gwella' penodol sy'n nodi'r pethau allweddol y mae'r Awdurdod yn bwriadu eu gwneud i wella. Rhaid i'r Awdurdod wneud hyn cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl 31 Rhagfyr yn y flwyddyn cyn y flwyddyn ariannol y mae'r cynllun yn ymwneud â hi (bwriad y polisi yw y bydd yr Awdurdodau Tân ac Achub yn cyhoeddi rhwng 1 Ionawr a 31 Mawrth).

Cyhoeddodd yr Awdurdod ei amcanion gwella ar gyfer 2013-14 a 2014-15 ar wefan yr Awdurdod.

| Amcanion Gwella 2012-13 | Amcanion Gwella 2013-14 | Amcanion Gwella 2014-15 |
|---|---|---|
| Helpu i gadw pobl a chymunedau yn ddiogel drwy atal marwolaethau ac anafiadau o ganlyniad i danau damweiniol mewn llety preswyl. | Helpu i gadw pobl a chymunedau yn ddiogel drwy atal marwolaethau ac anafiadau o ganlyniad i danau damweiniol mewn llety preswyl. | Helpu i ddiogelu pobl a chymunedau drwy atal marwolaethau ac anafiadau o ganlyniad i danau damweiniol mewn lletyau preswyl. |
| Canfod ffyrdd o leihau costau cyffredinol rhedeg y gwasanaeth bob blwyddyn er mwyn gweithredu o fewn cyllideb flynyddol o £32 miliwn tan 2013-14. | Canfod ffyrdd o leihau costau cyffredinol rhedeg y Gwasanaeth bob blwyddyn er mwyn gweithredu o fewn y gyllideb flynyddol (parhawyd o 2012-13). | Gweithredu cynllun ariannol tair blynedd ar gyfer 2014-15 i 2016-17 sy'n ariannu'r lefel bresennol o wasanaeth, ond sy'n ceisio cyfyngu'r gost o wneud hynny i'r hyn sy'n cyfateb i £1 ychwanegol y flwyddyn y pen o'r boblogaeth. |
| | | Er mwyn sicrhau bod Gogledd Cymru yn cael y lefel orau bosibl o wasanaeth o fewn cyfyngiadau ariannol, defnyddio amrywiaeth o atebion rheoli er mwyn darparu'r gwasanaeth tân ac achub gorau posibl yn yr ardal. |

## Hunanasesiad yr Awdurdod o'i berfformiad

Mae hunanasesiad yr Awdurdod o'i berfformiad yn ystod 2012-13 at gael ar wefan yr Awdurdod.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk
Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk